2. Gellir defnyddio'r adnodd i wneud y canlynol:

- Archwilio a chydnabod profiadau a theimladau pobl a gafodd eu herlid gan y Natsïaid.
- Archwilio pwysigrwydd cymuned a pherthyn.
- Galluogi'r dysgwyr i ddod yn fwy ymwybodol o'u profiadau a'u teimladau eu hunain ac i fagu hyder a chadernid, a meithrin empathi.

Cwestiynau:

- Pam yr oedd Heinz Koppel yn teimlo fel rhywun ar y cyrion, a sut y dylanwadodd hyn ar ei waith celf?
- Sut yr oedd Heinz Koppel yn archwilio ei brofiadau o fywyd yn ei gelfyddyd?
- Sut yr oedd y trawma o golli ei fam a ffoi o'i gartref wedi effeithio ar fywyd a gwaith Heinz?
- Beth yw ystyr 'teimlo fel rhywun ar y cyrion'?

4. I hybu creadigrwydd y dysgwyr, gellir defnyddio'r adnodd i'w hannog i archwilio paentiad trwy theatr gorfforol a symudiad.

Tafluniwch y paentiad 'Merthyr Blues' ar y bwrdd gwyn.

Ar ffurf grŵp cyfan, bydd y dysgwyr yn ail-greu'r paentiad *Merthyr Blues* gan Heinz Koppel. Gellir gwneud hyn trwy i'r dysgwyr fynd i mewn i'r gofod fesul un neu mewn grwpiau bach, a ffurfio ystum. Er enghraifft, gallai'r dysgwr cyntaf gymryd safle'r fenyw sy'n gwthio'r pram. Wedyn, gallai grŵp o ddysgwyr greu siâp yr adeilad y tu ôl iddi gan ddefnyddio eu cyrff. Mae'r broses hon yn parhau nes bod pob dysgwyr wedi ymuno â'r ddelwedd. Nid yw 'cywir' nac 'anghywir' yn berthnasol yma. Gyda'u cyrff yn y gofod, gadewch i'r dysgwyr archwilio'r paentiad mewn modd creadigol, ac anogwch arsylwadau a rhyngweithio ag eraill.

Y cam nesaf yw dod â'r ddelwedd yn fyw trwy gyfrwng deg eiliad o symudiad. Sut y gallai gwahanol rannau'r paentiad ryngweithio? Efallai y gallech chwarae cerddoriaeth glasurol yn y fan hon, i gyd-fynd â'r symudiad, e.e., Prélude Rachmaninoff yn Llonnod G Leiaf, Op. 32, Rhif, 12, yn cael ei chwarae gan Władysław Szpilman.

Cwestiwn:

- Sut y mae defnyddio'r cyfryngau gwahanol, h.y. symudiad a cherddoriaeth, yn effeithio ar ddealltwriaeth y dysgwyr o waith celf a'r broses o ryngweithio ag ef?

5. Gellir defnyddio'r adnodd i hybu meddwl beirniadol a myfyriol: Galluogi'r dysgwyr i ddwyn ynghyd ystod o ffynonellau, e.e., cofiant (gweler y Daflen Wybodaeth a'r Gweithgareddau i Ddysgwyr), paentiad, a chlip sain, i gael dealltwriaeth o rai o gymhlethdodau byw yng Nghymru i arlunydd o ffoadur Iddewig.

Cwestiynau:

- Pa ffynhonnell a gafodd yr effaith fwyaf ar y dysgwyr a pham?
- Beth yr oeddent wedi'i ddysgu am Heinz Koppel?

## 8. YMCHWIL A RHAGOR O WYBODAETH

**1. Cyflwyniad i addysgu a dysgu am yr Holocost:**

Mae'r Argymhellion ar gyfer Addysgu a Dysgu am yr Holocost o eiddo'r Gynghrair Ryngwladol Cofio'r Holocost (IHRA) yn darparu gwybodaeth am pam, beth a sut o ran addysgu am yr Holocost.

